**(HCC 706)**

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Gwener 8 Gorffennaf 2016**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
John Brereton, Gwynn Angell Jones, Graham Probert, Richard Rogers, Richard Tudor a John Yeomans

**Trwy Wahoddiad:** Gary Haggaty (Llywodraeth Cymru)
Maria Richards (Llywodraeth Cymru)

**Tim Gweithredol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Prys Morgan (Pennaeth Gweithrediadau)

Julie Finch (Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)

Owen Roberts (Arweinydd Cyfathrebu)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Yn benodol, croesawyd Maria Richards, Llywodraeth Cymru, a Dr. Owen Roberts, a benodwyd yn ddiweddar yn Arweinydd Cyfathrebu HCC.

Croesawyd penodiad Lesley Griffiths, AC i swydd Ysgrifennydd Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig gan y Cadeirydd a'r Bwrdd. Roedd trefniadau ar y gweill i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr fynychu cyfarfod rhagarweiniol gyda'r Ysgrifennydd Cabinet ar 8 Awst 2016.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Mai 2016*

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn derbyniad i ddathlu Dydd Ewrop wedi ei drefnu gan Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru yng Nghaerdydd.

Bu'r Cadeirydd yn achlysur cyflwyno Gwobrau Rheoli Cig 2016.

*Mehefin 2016*

Bu'r Cadeirydd yn cadeirio cyfarfod o'r Pwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2016 (Gweler Eitem 15a).

Rhoddwyd diweddariad i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr o'r Adolygiad o HCC gan Kevin Roberts (Gweler Eitem 12).

Cafodd y Cadeirydd ei friffio gan y Swyddogion Gweithredol ynghylch cais HCC am Fenter Strategol ar ran y sector cig coch trwy alwad cydweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig 2014 - 2020 (Gweler Eitem 13).

Bu'r Cadeirydd yn cynrychioli HCC yn Nigwyddiad Tir Glas Sioe Frenhinol Cymru a gynhaliwyd eleni ar Ystad y Rhug, Corwen.

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Undeb Amaethwyr Cymru.

Bu'r Cadeirydd yn cynrychioli HCC yn nigwyddiad *Countryside Alive* y CLA a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.

Bu'r Cadeirydd ar y panel cyfweliadau ar gyfer Ysgoloriaeth HCC 2016. Nodwyd y cyhoeddid enw(au) y sawl sy'n ennill yn ystod Sioe Frenhinol Cymru.

*Gorffennaf 2016*

Bu'r Cadeirydd yn y Digwyddiad Da Byw a gynhaliwyd yn Birmingham

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Will Haresign, Bethan Jones a Wyn Williams.

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiad o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Rheoli Credyd – John Brereton

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 6 Mai 2016 (HCC 697)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 6 Mai 2016 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Is-bwyllgor ymchwil a datblygu Cig Eidion a Chig Oen y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB)*

Nodwyd bod ateb wedi ei anfon at Adam Quinney, Cadeirydd Cig Eidion a Chig Oen AHDB i ddweud nad oedd HCC am gael cynrychiolaeth ar yr is-bwyllgor uchod ar hyn o bryd..

*Llywodraeth Cymru – Bwrdd Bwyd a Diod Cymru*

Rhoddwyd gwahoddiad i Andy Richardson, Cadeirydd yr uchod i fynychu cyfarfod o Fwrdd HCC. Ni chafwyd ateb mor belled.

Yn y cyfamser, roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi derbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod o Fwrdd Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru ar 28 Medi 2016.

*Rheolwr Datblygu'r Farchnad HCC*

Dywedodd y Prif Weithredwr y gwnaed cynnig ar gyfer y swydd uchod a bod disgwyl ateb ffurfiol gan yr ymgeisydd.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 698)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Ymgyrch Cig Oen Cymru PGI 2016*

Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau fod yr uchod yn cael ei gynllunio ar yn o bryd.

Eleni, câi'r gweithgaredd marchnata i'r defnyddwyr ei gynnwys mewn ymgyrch integredig Cysylltiadau Cyhoeddus, cymdeithasol a chynhwysol, gyda phwyslais digidol. Bydd gweithgaredd man gwerthu yn cydredeg yn agos â hyn er mwyn cael y cyfleoedd gorau i ymgysylltu â defnyddwyr a'r siopau.

Byddai'r negesau craidd yn dal i fod yn berthynol i flas, ansawdd, tarddiad, amlbwrpasedd a hwylustod, natur dymhorol ac iechyd / maeth. Byddai hyn yn rhoi rheswm i bobl ddylanwadol siarad am Gig Oen Cymru PGI trwy ymgysylltu â phobl dylanwadol eu barn, pen-cogyddion a blogwyr ac yn eu hannog i rannu a helaethu'r neges â'r defnyddwyr, y cyfryngau, eiriolwyr a masnachwyr.

Byddai'r ymgyrch graidd yn canolbwyntio ar y cyfnod allweddol o ran cig ar y silffoedd, sef Medi 2016 – Tachwedd 2016, ond câi ei chyflwyno'n gynharach, gyda'r gweithgaredd rhagarweiniol yn digwydd o fis Mehefin 2016.

*"Calan Awst Calan Oen" – 1 Awst 2016*

Roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer lansio “Calan Awst Calan Oen” ar 1 Awst 2016.

Yn ystod y digwyddiad cychwynnol câi ymgyrch HCC ar gyfer Cig Oen Cymru PGI ei lansio. Roedd yn seiliedig ar hen draddodiadau Celtaidd sy’n ymwneud â Chalan Awst, sef dyddiad yr ŵyl gynhaeaf gyntaf.

Nodwyd bod llawer o weithgaredd Cysylltiadau Cyhoeddus gan HCC wedi eu trefnu, gan gynnwys digwyddiadau blasu yn yr Eisteddfod Genedlaethol a chystadleuaeth ar-lein i ddefnyddwyr. Byddai taith haf HCC o gwmpas yr archfarchnadoedd yn dechrau ar yr un diwrnod yng Nghaerfyrddin.

*Gweithdy Cig Defaid wedi’i Gochi Heb Flingo – 6 Gorffennaf 2016*

Cynrychiolwyd HCC gan y Pennaeth Gweithrediadau yn y digwyddiad uchod. Trefnwyd y gweithdy i drafod datblygu ffordd lân o gynhyrchu cig defaid wedi’i gochi heb flingo.

Roedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi parhau i ymchwilio i sut gellid sicrhau hylendid wrth gynhyrchu cig defaid wedi ei gochi heb flingo. Roedd eisoes wedi ymgymryd â nifer o astudiaethau er mwyn canfod pa dystiolaeth fyddai ei hangen ar gyfer newid deddfwriaeth yr UE.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 699)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

c. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 700)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

d. *I gael manylion am bresenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru 2016*

Clywyd gan yr Arweinydd Cyfathrebu am y trefniadau arfaethedig ar gyfer presenoldeb HCC yn Sioe Frenhinol Cymru eleni:-

Roedd Rhaglen Ddigwyddiadau ar y gweill, a oedd yn cynnwys nifer o weithgareddau ar y stondinau Corfforaethol a Datblygu’r Diwydiant:-

Ar y dydd Llun byddai HCC yn cynnal ei dderbyniad brecwast pan fyddai’r Ysgrifennydd Cabinet yn bresennol.

Byddai HCC yn croesawu nifer o ymwelwyr rhyngwladol i’r stondinau, gan gynnwys prynwyr manwerth o’r Swistir, ysgrifenwyr bwyd amlwg o’r Eidal, newyddiadurwyr o Ffrainc a dirprwyaeth o Adran Amaeth yr Unol Daleithiau a fyddai’n ymweld â Sioe Frenhinol Cymru fel rhan o’r trafodaethau ynghylch adennill yr hawl i allforio cig coch i UDA.

Drwy gydol yr wythnos cynhelid arddangosiadau torri cig a choginio, arddangosiadau gan ben-cogyddion blaenllaw, cystadlaethau coginio, ocsiwn Cig Oen Cymru PGI a derbyniad Ysgoloriaeth HCC 2016.

Byddai'r stondin Datblygu'r Diwydiant yn cynnal arddangosiadau dyddiol i ddangos i gynhyrchwyr da byw sut mae archwilio hyrddod ar gyfer ffrwythlondeb cyn y tymor bridio. Hefyd, byddai nifer o gyhoeddiadau technegol ar gael, gan gynnwys yr argraffiad diweddaraf o'r Llyfr Bach o Ffeithiau am Gig. Yn ogystal, cynhelid cystadlaethau ynghylch adnabod toriadau o gig eidion, cig oen a phorc, a'r gystadleuaeth arferol o ddosbarthu carcasau cig oen.

Byddai rhaglen ddigwyddiadau lawn yn cael ei rhoi ar y cyfryngau cymdeithasol maes o law.

7. **<u>I dderbyn adroddiad llafar am drydydd gweithdy Fforwm Cig Defaid yr UE ar 29 Mehefin 2016</u>**

Bu'r Prif Weithredwr yn mynychu trydydd cyfarfod Fforwm cig defaid yr UE a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2016 pan oedd swyddogion o'r Comisiwn a nifer o gynrychiolwyr o'r Aelod-wladwriaethau yn bresennol.

Yn ôl y disgwyl, roedd cyfeiriad at Brexit yn ystod y cyfarfod. Dywedodd staff y Comisiwn y byddai canlyniad Brexit, o ystyried maint y sector defaid yn y DG o'i gymharu â'r 27 o Aelod-wladwriaethau eraill (Mae'r DG yn cynhyrchu 40% o'r holl gig defaid a gynhyrchir yn yr UE), yn golygu newid deinameg y farchnad gig defaid yn yr UE – o ran masnachu yn Ewrop a masnachu â gwelydd y tu allan i Ewrop, yn benodol Seland Newydd ac Awstralia.

Byddai perthynas fasnachu'r DG â 27 gwlad yr UE ar ôl Brexit yn fater o drafodaethau gwleidyddol ynghylch mynediad i'r farchnad sengl ac, yn naturiol, doedd staff y Comisiwn ddim am drafod y mater hwn. O ran y Cwota Cyfradd Tariff (TRQ) a oedd yn cael ei roi ar hyn o bryd i Seland Newydd ac Awstralia gan yr UE, dywedodd y Comisiwn y byddai hwn yn fater cymhleth iawn i'w ddatrys. Roedd tunelledd presennol y TRQ, ar bapur, yn cynnwys rhan y DG o'r cwota. Felly, o ystyried goblygiadau hyn i'r UE (ac i'r DG) y teimlad ar hyn o bryd oedd y byddai angen cyfeirio'r mater i Sefydliad Masnach y Byd. Roedd yn amlwg y byddai'n cymryd cryn amser i ddatrys y mater ac y byddai lobio gan Seland Newydd ac Awstralia yn ychwanegu at y cymhlethdod.
Bu'r pwyllgor hwn yn canolbwyntio ar bolisi'r UE ar gyfer y sector defaid, a chafwyd cyflwyniadau gan Swyddogion y Comisiwn ar y pynciau a ganlyn:-

- Dulliau Gweithredu'r Farchnad yn y sector defaid, gan gynnwys taliadau uniongyrchol a chysylltiedig

- Gweithredu EID ar draws yr Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys trafodaeth am oddefiadau mewn perthynas â chroesgydymffurfio.

- Egwyddorion creiddiol y Cynllun Datblygu Gwledig mewn perthynas â chymryd camau i gefnogi'r sector
- Polisi hyrwyddo'r UE
- Trafodaethau ynghylch masnach gig defaid yr UE.

Nodwyd bod fod y Fforwm yn dal i gasglu tystiolaeth ac felly nid oedd unrhyw benderfyniadau / argymhellion ar hyn o bryd. Cynhelid y cyfarfod nesaf ganol mis Hydref 2016.

8. **<u>I drafod canlyniad Refferendwm yr UE - Brexit</u>**

Cafwyd trafodaeth o gwmpas y bwrdd ynghylch yr uchod.

Yn gyffredinol, cydnabuwyd na fyddai newid hyd nes bod Erthygl 50 o Gytuniad Lisbon ar waith. Felly, ceid cyfnod o ddwy flynedd cyn i'r DG adael yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ystod y trafod, nodwyd bod y meysydd a ganlyn, yn enwedig, yn allweddol o ran hyfywedd y sector cig coch yn y dyfodol:-

- Manteisio ar gyfleoedd newydd
- Y safbwynt o ran trafodaethau a'r trafod wedyn ynghylch Cytundebau Masnach Rydd
- Mynediad dirwystr i farchnad sengl yr UE
- Byddai marchnadoedd allforio yn hanfodol ar gyfer ffyniant a llesiant yn y dyfodol
- Roedd y trefniadau (os oes rhai) ar gyfer caniatáu mewnforion i farchnad y DG yn y dyfodol yn destun pryder sylweddol a byddai angen eu hystyried a'u hadolygu
- Taliadau uniongyrchol i gefnogi cynnyrch cynradd a nwyddau amgylcheddol
- Cyfle i adolygu'r rheolau a rheoliadau sydd yn rheoli'r diwydiant
- Ansicrwydd ynghylch parhad / cydnabyddiaeth y cynllun Enw Bwyd Gwarchodedig (PGI / PDO / TSG)
- Nodwyd y byddai gwaith HCC ar ran y diwydiant cig coch yng Nghymru yn mynd yn fwy hanfodol yn y dyfodol.

Yn y cyfamser, bydd HCC yn ceisio chwarae rhan weithredol gyda Llywodraeth Cymru er mwyn canfod y posibiliadau i'r diwydiant ar ôl Brexit.

9. **<u>I dderbyn a chymeradwyo adroddiad ynglŷn â thargedau Cynllun Busnes HCC 2015 / 2016 (HCC 701)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwraig Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.

Roedd yr adolygiad yn amlinellu perfformiad HCC yn ôl y Cynllun Busnes ar gyfer blwyddyn ariannol 2015 / 2016.

Roedd y ddogfen yn dangos fod targedau Cynllun Busnes HCC 2015 / 2016 wedi'u cyflawni yn gyffredinol.

Cafodd yr adroddiad ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

10. **<u>Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg</u>**

a. *<u>I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Llun 20 Mehefin 2016</u>*

Am fod Bethan Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg) yn absennol, cyflwynwyd yr adroddiad am yr uchod gan Graham Probert:

*<u>Adolygiad o'r Cyfrifon Blynyddol Drafft ar gyfer 2015 / 2016</u>*

Roedd y Pwyllgor wedi adolygu'r cyfrifon drafft.

*<u>Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) am y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2015 / 2016</u>*

Cynrychiolwyd Swyddfa Archwilio Cymru gan Clare James, a gyflwynodd yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Trafodwyd cynnwys yr adroddiad ac ni ddaeth unrhyw faterion arwyddocaol i'r amlwg. Cafodd y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r tîm Cyllid eu llongyfarch am yr archwiliad glân / diamod.

Adolygwyd y llythyr sylwadau drafft ac argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r llythyr.

Cytunodd y Bwrdd ag argymhelliad y Pwyllgor ynghylch y llythyr sylwadau.

b. *<u>I dderbyn crynodeb o'r pwyntiau allweddol yn y Datganiadau Ariannol 2015 / 2016 (HCC 702)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

c. *<u>I dderbyn a chymeradwyo'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2015 - 2016 (HCC 703)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwyr fod y manylion yn y datganiadau ariannol mewn perthynas â'u datganiadau unigol yn gywir a bod yr wybodaeth berthnasol wedi ei throsglwyddo i'r Archwilwyr.

Argymhellodd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg y dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2015 / 2016, yn amodol ar y newidiadau a nodwyd.

Cafodd y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2015 / 2016 eu cymeradwyo gan y Bwrdd.

d. *<u>I fabwysiadu'r Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 4 Mawrth 2016 (HCC 704)</u>*

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 4 Mawrth 2016 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

11. **<u>I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain</u>**

Rhoddodd y Prif Weithredwr adroddiad am yr uchod:-

Gyda golwg ar ganlyniad etholiad Brexit, roedd yn annhebygol y ceid cynnydd yn y mater hwn yn y dyfodol agos.

Yn y cyfamser, byddai Swyddogion Gweithredol HCC yn dal i drafod â swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB) a QMS.

12. **<u>I dderbyn adroddiad llafar am Adolygiad Llywodraeth Cymru o HCC</u>**

Rhagwelwyd y câi'r adroddiad ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet i'w adolygu ac i ystyried yr argymhellion gan Kevin Roberts ddiwedd Gorffennaf 2016.

13. **<u>I dderbyn diweddariad llafar ynghylch cais HCC i Gynllun Datblygu Gwledig 2014 – 2020 ar ran y Diwydiant Cig Coch</u>**

Rhoddwyd y diweddaraf i'r cyfarfod gan y Rheolwr Strategaeth a Pholisi Corfforaethol.-

Roedd y cais am gyllid i ddatblygu Menter Strategol ar ran y sector cig coch a gyflwynwyd i'r Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 yn ystod Ebrill 2016 yn dal i

gael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru, Disgwylid penderfyniad yn ystod mis Gorffennaf 2016.

14. **I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid**

Nodwyd bod dros 1,700 o'r rhai sy'n cadw defaid wedi cofrestru gyda EIDCymru hyd yma. Cafwyd cynnydd yn nifer y symudiadau defaid yn ystod Mai a Mehefin 2016. Roedd marchnadoedd da byw yn dal i ddefnyddio dulliau electroneg i roi manylion masnachu. Roedd y tîm Swyddfa yn brysur yn cymryd galwadau ac yn cynghori ffermwyr, yn bennaf yn rhoi cyngor ar sut i roi manylion ar gyfer trwydded symud ar-lein.

Roedd y tîm Technegol yn dal i ymgysylltu â ffermwyr a byddai EIDCymru yn bresennol ar stondin Datblygu'r Diwydiant HCC yn Sioe Frenhinol Cymru.

15. **Y Pwyllgor Cynghori Y&D**

a. *I gael adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori Ymchwil a Datblygu a gyfarfu ddydd Mercher 1 Mehefin 2016*

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar am y materion a drafodwyd yn y cyfarfod.

b. *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 2 Mawrth 2016 (HCC 705)*

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 2 Mawrth 2016 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

16. **Unrhyw fater arall**

*Mercosur*

Croesawodd y Bwrdd y cyhoeddiad diweddar gan y Comisiynydd Hogan na fydd cig eidion bellach yn rhan o drafodaethau presennol cytundeb masnach Mercosur.

17. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Gwener 9 Medi 2016.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**